TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

## 2022 - 2027

**(Adolygwyd Rhagfyr 2025)**

Grant Cymorth Tai
Housing Support Grant

# Cynnwys

**Rhagair** .......... **2**
**1. Rhagarweiniad** .......... **3**
1.1 Diben y Strategaeth .......... 3
1.2 Y Cyd-destun o ran deddfwriaeth a pholisi .......... 4
1.3 Gweledigaeth ac Egwyddorion .......... 7
**2. Asesu Anghenion** .......... **8**
2.1 Y broses Asesu Anghenion .......... 8
2.2 Canfyddiadau allweddol .......... 8
2.3 Casgliadau .......... 10
**3. Blaenoriaethau Strategol** .......... **12**
3.1 Amcanion a blaenoriaethau strategol y cymorth sy'n gysylltiedig â thai lleol .......... 12
3.2 Amcanion strategol y cymorth sy'n gysylltiedig â thai rhanbarthol .......... 18
**4. Ymgysylltu â rhanddeiliaid** .......... **20**
4.1 Rhanddeiliaid .......... 20
4.2 Adborth .......... 22
**5. Asesiadau Effaith** .......... **23**
5a Y broses asesu effeithiau .......... 23
5b Canfyddiadau allweddol .......... 28
Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) .......... 29
**6.Gweithredu, monitro ac adolygu'r Strategaeth** .......... **25**
6a Gweithio gyda phartneriaid .......... 30
6b Ffynonellau cyllid .......... 30
6c Trefniadau monitro, adolygu a gwerthuso .......... 30
**Atodiad A – Cynllun Gweithredu** .......... **27**

## Rhagair



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai ddiwygiedig Torfaen, sy'n nodi gweledigaeth y Cyngor o ran mynd i'r afael ag anghenion Digartrefedd a Chymorth Tai yn y fwrdeistref.

Cydnabuwyd ers tro bod mynd i'r afael â digartrefedd a'i achosion sylfaenol yn galw am ddull cyfannol a chydgysylltiedig wrth weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddatblygu atebion addas.  Mae'r gwaith o ailgynllunio Gwasanaethau Atal ac Ymyrraeth Gynnar yn ddiweddar, yn rhan o Strategaeth Gymunedau uchelgeisiol y Cyngor yn adeiladu ymhellach ar y dulliau cydweithredol, ac mae'n ceisio cynyddu cysylltedd a chydnerthedd cymunedol.

Bydd y Strategaeth hon yn parhau i adeiladu ar yr arfer da sy'n mynd rhagddo yn Nhorfaen ar hyn o bryd, ac yn gwella gwaith y sector ymhellach i ddarparu canlyniadau cadarnhaol, hirdymor i rai o drigolion mwyaf bregus ein bwrdeistref.

Trwy ddefnyddio dulliau mwy arloesol i fynd i'r afael ag anghenion tai a mynd ati'n barhaus i gomisiynu gwasanaethau cymorth hanfodol, gallwn barhau i liniaru effeithiau dinistriol digartrefedd ar ein trigolion. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau iawn, ar yr adeg iawn, i sicrhau y gall pawb gael tai fforddiadwy o ansawdd da yn Nhorfaen, a dal gafael arnynt.



Aelod Gweithredol dros Gymunedau, Tai a Gwrth-dlodi

# 1. Rhagarweiniad

## 1.1 Diben y Strategaeth

Cafodd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Torfaen (RhCT) ei datblygu i ddarparu dull clir a chydlynol i fynd i'r afael ag anghenion tai a chymorth y gymuned leol, i atal digartrefedd a hyrwyddo llety mwy cynaliadwy trwy ystod o ymyriadau a gwasanaethau cymorth.

Mae'r strategaeth yn nodi'r un cyfeiriad strategol o ran darparu gwasanaethau i atal digartrefedd a chymorth sy'n gysylltiedig â thai yn Nhorfaen (2022 – 2027), gan ddarparu dull unedig i ddiwallu'r galw yn awr ac yn y dyfodol.

Mae'r weledigaeth, yr egwyddorion a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer yr awdurdod lleol a'i bartneriaid wedi'u cynnwys yn y strategaeth hon, yn ogystal ag amcanion strategol y cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn rhanbarthol, fel y cytunwyd gan y partneriaid a'r Grŵp Cydweithredol ar gyfer Cymorth Tai Rhanbarthol.

Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u datblygu yn dilyn asesiad trylwyr o angen lleol, ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau yn lleol ac yn rhanbarthol, yn ogystal â chyfeiriad at ddeddfwriaeth bresennol, polisi cyfredol ac ymchwil berthnasol.

Wrth ddatblygu'r cyfeiriad strategol, roedd yn bwysig sicrhau dull cyfannol, gyda gwasanaethau'n ategu ei gilydd ac yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu dull cydlynol a chydgysylltiedig, gan gynnig darpariaeth addas i fynd i'r afael â digartrefedd ac anghenion o ran y cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

Cafodd Strategaeth Ddigartrefedd Gwent 2018 ei hadolygu fel rhan o'r broses hon i sicrhau bod unrhyw anghenion presennol yn cael eu hadlewyrchu yn y blaenoriaethau strategol newydd, yn ogystal ag unrhyw anghenion sy'n dod i'r amlwg, gan alluogi Torfaen i fodloni'r gofynion statudol presennol ar gyfer strategaeth ddigartrefedd o dan Ran 2, Deddf Tai (Cymru) 2014 a gofynion y rhaglen Cymorth Tai.

Mae'r Strategaeth wedi cael ei hadolygu a'i diweddaru yn ystod 2025 a'i hymestyn i gyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r Rhaglen Grant Cymorth Tai.

## 1.2 Y Cyd-destun o ran deddfwriaeth a pholisi

Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae'r gofynion o fewn deddfwriaeth a pholisi ar hyn o bryd wedi llywio a siapio datblygiad y strategaeth hon.

***Deddf Tai (Cymru) 2014***

Mae hon yn nodi'r gofynion cyfreithiol o ran darparu gwasanaethau tai ledled Cymru, gan gynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu digartrefedd o bryd i'w gilydd a datblygu strategaeth ddigartrefedd. Bydd y strategaeth RhCT hon yn darparu dull integredig sy'n bodloni'r gofynion statudol ar gyfer strategaeth ddigartrefedd a chyflawni'r Rhaglen Cymorth Tai, drwy gefnogi'r awdurdod lleol i atal neu liniaru digartrefedd drwy'r adnoddau sydd ar gael a'r mecanweithiau cymorth.

***Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer Atal a Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd***

Mae'r strategaeth yn nodi dull Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru. Mae nifer o egwyddorion allweddol yn sail i'r strategaeth a bydd cynllun gweithredu blynyddol yn ategu'r broses o'i chyflawni. Mae'r strategaeth yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i sicrhau bod digartrefedd yn parhau i fod yn brin, yn fyr ac nad yw'n cail ei ailadrodd, trwy weithredu mesurau atal cynharach a mabwysiadu dulliau ailgartrefu cyflym.

***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***

Mae'r Ddeddf yn ceisio gweithredu gwelliannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd hirdymor a chynaliadwy ledled Cymru a chyfyngu ar yr effeithiau negyddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae cysylltiadau amlwg yn bodoli rhwng digartrefedd ac egwyddorion y Ddeddf Llesiant. Nod y Ddeddf yw sicrhau canlyniadau hirdymor cynaliadwy ac mae'r egwyddor hon yn sail i'r Strategaeth RhCT, a fydd yn fodd o ddatrys materion tai mewn ffordd gynaliadwy a darparu cymorth addas ar gyfer aelwydydd sy'n wynebu anawsterau yn Nhorfaen.

***Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016***

Nod y Ddeddf hon yw gwella a rheoleiddio rhentu yng Nghymru, drwy amddiffyn a diogelu deiliadaethau yn well. Bydd gwella'r sector yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o ran digartrefedd ar draws gwahanol sectorau rhentu, yn helpu i atal digartrefedd ac yn cefnogi anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn y tymor hir; y mae darparu tai fforddiadwy o ansawdd dal i fod yn hanfodol iddynt.

***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014***

Mae'n ofynnol i gynghorau a byrddau iechyd lleol gydweithio i asesu anghenion gofal a chymorth pobl, gan ystyried ystod eang o themâu gan gynnwys tai, cymorth ac iechyd. Mae'r themâu hyn yn rhan annatod o'r rhaglen RhCT ac mae ystyriaeth fanwl wedi'i rhoi iddynt yn yr Asesiad Anghenion, i nodi'r lefelau presennol o alw, y ddarpariaeth sydd ar gael, bylchau a thueddiadau'r dyfodol, sydd wedi llywio datblygiad y strategaeth hon a'i gweledigaeth.

***Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015***

Rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gyflwyno strategaethau lleol sy’n cefnogi themâu’r Ddeddf hon; atal, diogelu a chefnogi. Mae Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn faes sy’n peri pryder yn Nhorfaen, gyda nifer uchel o ddigwyddiadau wedi’u cofnodi yn y blynyddoedd diwethaf ac yn aml yn cyfrannu at lefelau digartrefedd yn y fwrdeistref. Wrth ddatblygu’r strategaeth hon, rhoddwyd cryn ystyriaeth i sut y gall gefnogi ac ategu at waith y Ddeddf o ran mynd i’r afael ag anghenion aelwydydd y mae VAWDASV yn effeithio arnynt.

***Cynllun Cyflenwi Camddefnyddio Sylweddau 2019 – 2022***

Mae’r cynllun hwn yn nodi’r meysydd o flaenoriaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt, er mwyn lleihau’r niwed sy’n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, sicrhau bod pobl yn ymwybodol o effaith camddefnyddio sylweddau a bod unrhyw un sydd ei angen yn gallu cael hyd i wybodaeth, cymorth a chefnogaeth. Bydd y Strategaeth RhCT yn gweithio i sicrhau bod nodau’r Cynllun hwn yn cael eu cyflawni’n lleol, trwy fonitro’r galw yn barhaus ac adolygu gwasanaethau’n rheolaidd.

***Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru***

Mae Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn nodi nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl ledled Cymru, hyrwyddo lles meddwl a helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl i gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae iechyd meddwl wedi’i nodi fel maes o angen sylweddol yn Nhorfaen ac mae atgyfnerthu a hyrwyddo mynediad at ddarpariaeth cymorth iechyd meddwl yn un o’r blaenoriaethau strategol yn y strategaeth hon.

***Deddf Cydraddoldeb 2010***

Mae amddiffyn rhag gwahaniaethu wrth galon y rhaglen Cymorth Tai ac mae'r strategaeth hon yn ceisio grymuso unigolion i chwarae rhan weithredol mewn cymdeithas a hyrwyddo mwy o annibyniaeth, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth penodol. Cwblhawyd asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb wrth fynd ati i ddatblygu’r strategaeth, a chaiff gwasanaethau eu monitro a’u hadolygu’n rheolaidd i sicrhau nad oes unrhyw fodd o wahaniaethu’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol yn erbyn defnyddwyr gwasanaethau â nodweddion gwarchodedig o ran cael mynediad i wasanaethau.

***Canllawiau’r Grant Cymorth Tai***

Mae canllawiau’r GCT yn sail i gyflawni’r Rhaglen Cymorth Tai, gan nodi’r diben, y meini prawf cymhwysedd a’r meini prawf cyflawni y mae’n rhaid i’r awdurdod lleol eu bodloni mewn perthynas â’i gynlluniau strategol, ei asesiadau anghenion ac wrth fonitro gwasanaethau. Rhoddwyd cryn lawer o ystyriaeth i’r canllawiau wrth ddatblygu’r strategaeth hon, er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni’r gofynion o ran cynllunio a darparu gwasanaethau RhCT.

***Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd 2016***

Mae’r Cod yn nodi canllawiau clir i awdurdodau lleol sy’n cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â dyrannu llety a digartrefedd. Wrth ddatblygu blaenoriaethau’r strategaeth hon, adolygwyd gofynion Cod a Deddf Tai (Cymru) 2014, i sicrhau bod y strategaeth yn cefnogi ac yn ategu’r modd y mae’r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol.

***Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)***

Cyflwynwyd Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol Cymru i'r Senedd ym mis Mai 2025. Mae'n ddiwygiad mawr i gyfraith tai a gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru, gyda'r nod o sicrhau bod digartrefedd yn fater prin, am gyfnod byr, ac un nad yw'n cael ei ailadrodd. Mae'r bil yn ceisio trawsnewid y system ddigartrefedd yng Nghymru drwy ganolbwyntio ar ganfod ac atal yn gynnar wrth gryfhau dulliau ailgartrefu'n gyflym i liniaru effaith niweidiol digartrefedd ar unigolion a chymunedau yng Nghymru.

Lleol/Rhanbarthol cyd-destun

***Torfaen y Dyfodol: Cynllun Sirol 2023-2027***

Mae Cynllun Sirol Torfaen (2023-2027) yn nodi uchelgeisiau'r Cyngor ac yn tynnu sylw at 4 thema allweddol. Yn sail iddynt mae 9 amcan llesiant i wella bywydau a'r trigolion eu hunain yn y cymunedau yn Nhorfaen.

Gellir cael gyd i gopi o'r cynllun drwy ddilyn y ddolen isod:

Torfaen y Dyfodol: Cynllun Sirol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae'r Rhaglen Grant Cymorth Tai yn Nhorfaen yn cyfrannu'n helaeth at gyflawni'r Cynllun Sirol a Chynllun Llesiant y BGC drwy gyflwyno'r Strategaeth a Chynllun Cyflawni'r Rhaglen Cymorth Tai.

**Strategaeth Gymunedol a Llesiant Torfaen 2023 - 2027**

Mae Strategaeth Llesiant Cymunedol Torfaen 2023–2027 yn nodi gweledigaeth ar gyfer adeiladu cymunedau cryfach a mwy gwydn trwy sicrhau bod llesiant ac atal yn gonglfeini yn nghynlluniau gwasanaethau lleol. Mae'n canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau iechyd, cefnogi pobl drwy heriau bywyd, a hyrwyddo ymyrraeth gynnar i atal argyfyngau. Mae'r strategaeth yn pwysleisio cydweithio rhwng y cyngor, grwpiau gwirfoddol, gwasanaethau iechyd, a rhwydweithiau cymunedol, gyda'r nod o rymuso trigolion, gwella asedau lleol, a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion go iawn yn y gymuned.

**Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym**

Mae'r cynllun pontio Ailgartrefu Cyflym sydd wedi'i ddatblygu i ddarparu dull clir a chydlynol o ddiwallu anghenion tai a chymorth yn y gymuned, yn amlinellu gweledigaeth bod 'pawb yn Nhorfaen yn gallu cael mynediad at lety a chymorth amserol a chynaliadwy i leihau effaith digartrefedd'. Mae'r cynllun yn manylu ar sawl blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â gwella'r cyflenwad o lety, gwella cyfleoedd i weithio ar y cyd ac adolygu prosesau a gweithdrefnau i liniaru effaith digartrefedd yn ein cymuned.

## 1.3 Gweledigaeth ac Egwyddorion

Gweledigaeth

*Mae gan bawb sy'n byw yn Nhorfaen gartref sy'n diwallu eu hanghenion a'r gefnogaeth a'r cymorth angenrheidiol i fyw bywyd sy'n dwyn boddhad.*

Egwyddorion

Bydd yr egwyddorion canlynol yn cael eu dilyn i helpu i gyflawni'r weledigaeth hon:

- Byddwn yn gweithio i sicrhau bod pob unigolyn yn Nhorfaen yn cael mynediad teg a chyfartal at dai fforddiadwy o ansawdd da, cymorth sy'n ymwneud â thai a chyngor ar dai, cyn gynted â phosibl, er mwyn atal digartrefedd a/neu gynnal byw'n annibynnol.

- Byddwn yn darparu cymaint o wasanaethau cymorth ag y medrwn trwy gydweithredu a gweithio ar y cyd â'n partneriaid, gan nodi cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau a fydd yn lleihau digartrefedd ac yn sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol mwyaf posibl.

- Pan na fydd modd atal digartrefedd, byddwn yn gweithio i sicrhau mai cyfnod byr ydyw ac na fydd hyn yn digwydd eto.

- Byddwn yn parhau i adolygu gwasanaethau ac ymgynghori'n rheolaidd â'n defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid i gynnal gwybodaeth dda am anghenion a gofynion tai yn y fwrdeistref.

Bydd gweledigaeth ac egwyddorion y strategaeth hon yn cefnogi ac yn ategu'n uniongyrchol at y gwaith o gyflawni Cynllun Llesiant Torfaen a'i amcanion, sy'n ceisio gwneud Torfaen yn lle gwych i fyw, gweithio ac ymweld ag ef, lle mae plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a lle mae pobl yn cael y cyfle i weithio a dysgu, a byw bywydau iachach a mwy llewyrchus.

Drwy roi'r strategaeth hon ar waith yn llwyddiannus, bydd y Rhaglen Cymorth Tai a'r gwasanaeth tai, ar y cyd â'i phartneriaid allweddol, yn gweithio i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y cymorth tai a'r cymorth sy'n gysylltiedig â thai sydd ei angen arnynt i fyw bywydau bodlon, a chael mwy o ymdeimlad o les a chyflawni canlyniadau mwy cadarnhaol.

# 2. Asesu Anghenion

Fe wnaeth yr asesiad anghenion ddadansoddi ystod eang o ddata o wahanol ffynonellau, i bennu lefelau digartrefedd, anghenion tai a'r cymorth a ddarperir yn Nhorfaen, tra ymgynghorwyd yn helaeth â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid i ddeall eu pryderon a'u blaenoriaethau yn well. Defnyddiwyd y canfyddiadau i nodi tueddiadau cyfredol, meysydd twf a bylchau yn y ddarpariaeth, sydd wedi helpu i lunio blaenoriaethau strategol y strategaeth hon a'r Datganiad Anghenion.

Mae copi o'r Asesiad Anghenion i'w weld yn **Atodiad 1 (mae hyn wedi bod yn destun adolygiad ysgafndroed ym mis Medi 2025).**

## 2.1 Y broses Asesu Anghenion

Cynhaliwyd yr Asesiad Anghenion gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data gan gynnwys ystadegau cenedlaethol, data rhanbarthol a gwybodaeth leol, i ddarparu data meintiol am lefelau angen yn Nhorfaen. Yna ategwyd at hyn gan wybodaeth ansoddol gan ddefnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol eraill, a oedd â phrofiad uniongyrchol o naill ai darparu neu gael mynediad at y gwasanaethau hyn yn lleol.

Fe wnaeth yr wybodaeth a gasglwyd drwy'r broses asesu gynnig dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ddarpariaeth bresennol; gan gynnwys lefelau angen a galw, heriau presennol, bylchau yn y ddarpariaeth a meysydd blaenoriaeth; yn awr ac yn y dyfodol.

Mae'r asesiad o anghenion a'r datganiad anghenion wedi bod yn destun adolygiad ysgafndroed yn 2025.

## 2.2 Canfyddiadau allweddol

The following sources of information were used when carrying out the assessment:

- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)
- Data Defnyddio Banc Bwyd a Phrydau Ysgol am Ddim
- Asesiad Llesiant Torfaen
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)
- Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gwent 2018
- Data Digartrefedd a Thai Lleol
- Data Porth Rhaglen Cymorth Tai a Chanlyniadau
- Asesiad Anghenion Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent (VAWDASV)
- Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaethau a Rhanddeiliaid
- Ymchwil a Chyhoeddiadau Cenedlaethol
- Strategaethau Lleol a Rhanbarthol Allweddol
    - Cynllun Llesiant Lleol,
    - Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
    - Strategaeth i Bobl Hŷn Cam 3: Cynllun Cyflenwi Torfaen (2015 i 2023)
    - Strategaeth Ddigartrefedd Gwent 2018
    - Cynlluniau Digartrefedd: Cam II

Mae rhai o'r prif themâu a ddeilliodd o'r Asesiad Anghenion ac sydd wedi helpu i lunio blaenoriaethau strategol y strategaeth hon yn cynnwys:

### Llety a diffyg llety â chymorth/cymorth rhannol

Un o'r bylchau mwyaf arwyddocaol yn Nhorfaen yw'r diffyg tai fforddiadwy. Mae lefelau digynsail o alw am dai ledled y DU ac nid yw Torfaen yn eithriad. Mae llety person sengl yn arbennig o gyfyngedig ac mae rhestrau aros am dai yn tyfu. Mae angen penodol am fwy o opsiynau llety â chymorth a llety cymorth rhannol, i gynorthwyo aelwydydd y mae ganddynt lu o anghenion cymorth ac i sicrhau bod tenantiaethau'n gynaliadwy ac yn gallu llwyddo.

Bydd darparu mwy o lety yn her sylweddol ac mae'n galw am ymagwedd amlasiantaeth, ond trwy adlinio gwasanaethau presennol a thrwy weithio'n agos gyda phartneriaid yn y strategaeth cynllunio a thai. Er bod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud i wella ac ail alinio darpariaeth tai â chymorth yn Nhorfaen, mae rhestr aros ar gyfer gwasanaethau tai â chymorth yn parhau i fod ar waith ar gyfer amrywiaeth o opsiynau wrth ddarparu llety a gwasanaethau cymorth. Bydd Torfaen yn parhau i weithio i ddatblygu polisïau a fydd yn hyrwyddo'r gwaith o ddatrys materion tai yn well yn y dyfodol i i ddiwallu anghenion llety a chymorth y gymuned.

### Cynnydd yn y lefel o amddifadedd

Mae gwasanaethau cymorth tai a digartrefedd ill dau wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw yn y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth yn derbyn cymorth am gyfnodau hwy o amser. Mae hyn wedi arwain at bwysau ychwanegol, felly mae'r gwasanaeth yn parhau i adolygu a lle bo angen, cynyddu mynediad at y gwasanaethau hyn i ddiwallu'r anghenion hyn yn well a sicrhau bod yr awdurdod lleol yn barod am unrhyw ofynion sy'n debygol o ddod i'r amlwg yn y dyfodol. Mae'r asesiad anghenion diwygiedig yn tynnu sylw at effaith yr argyfwng costau byw ar incwm aelwydydd, ac er bod effaith lawn y cynnydd mewn biliau ynni, cynnydd mewn chwyddiant a chostau benthyca eto i'w gwireddu, gwyddom fod rhai aelwydydd yn wynebu mwy o dlodi sy'n effeithio ar sefydlogrwydd tai a chanlyniadau ehangach o ran iechyd corfforol a meddyliol.

### Anghenion cymhleth a lluosog

Mae mwy o aelwydydd ag anghenion cymhleth neu luosog yn cysylltu â'r gwasanaeth tai am gymorth, sy'n ei gwneud yn anos dod o hyd i atebion addas. Roedd adborth gan y rhanddeiliaid yn pwysleisio'n gryf pa mor bwysig yw datblygu a chomisiynu mwy o wasanaethau cymorth pwrpasol i fynd i'r afael â'r lefelau angen a nodwyd, yn ogystal â phwysigrwydd cydweithio a dulliau amlasiantaeth mwy cydgysylltiedig.

Er bod gwasanaethau yn brofiadol o ran ymateb i anghenion sy'n cyd-ddigwydd ac anghenion lluosog, mae gofynion ychwanegol o ran datblygu gweithlu i ymateb i reoli risgiau a dwyster yr anghenion cymorth yn y gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety a gwasanaethau cymunedol. Yn yr un modd, mae dulliau cydweithredol ar draws y sector a'r ffiniau yn fwyfwy hanfodol o ran diwallu canlyniadau'r rhai sydd ag anghenion cymhleth a lluosog.

### Ymddieithrio a rhwystrau o ran cael cymorth

Mae ystadegau digartrefedd a data atgyfeirio RhCT wedi canfod nifer sylweddol o ddefnyddwyr gwasanaethau nad ydynt yn manteisio ar y gwasanaethau a gynigir iddynt. Mae hon yn broblem arbennig o ddifrifol o ran llety dros dro, gydag aelwydydd yn colli eu llety brys ac, o ganlyniad, yn methu â sicrhau cartref hirdymor sy'n addas.

Mae datblygu ystod o wasanaethau ac opsiynau cymorth sy'n hyrwyddo hyblygrwydd a mynediad hawdd i annog ymgysylltu â gwasanaethau cymorth i wella canlyniadau i unigolion wedi bod yn hanfodol wrth newid gwasanaethau a gwneud y mwyaf o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Mae'r pandemig byd-eang wedi gyrru'r dulliau amrywiol o wasanaethau cymorth sy'n cynnig mwy o ddewis a hyblygrwydd o ran y ffordd y mae gwasanaethau cymorth yn cael eu darparu i gynyddu ymgysylltiad. Yn yr un modd, mae'r dulliau sy'n seiliedig ar drawma ac ymarfer seicolegol sydd wedi'u hymgorffori yn y gwasanaethau Cymorth Tai a Digartrefedd, yn cefnogi mwy o ddealltwriaeth am ymddygiadau heriol o fewn y cyd-destun tai.

## Atal ac ymyrraeth gynnar

Mae tystiolaeth wedi dangos, pan ddefnyddiwyd dulliau ataliol, eu bod wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran lleihau lefelau angen sy'n acíwt. Mae cydweithio ag aelwydydd a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref wedi bod yn hynod fuddiol, gyda'r awdurdod lleol yn cyflawni cyfraddau llwyddiant uwch o ran atal digartrefedd o gymharu â'i leddfu. Bydd neilltuo mwy o adnoddau ar gyfer dulliau ymyrraeth gynnar, felly, yn sicrhau yr eir i'r afael â sefyllfaoedd yn gyflym ac nad ydynt yn dod yn argyfwng.

## Y ddarpariaeth ar hyn o bryd a'r galw yn y dyfodol

Mae Torfaen yn parhau i ddarparu ystod eang o wasanaethau, yn lleol ac yn rhanbarthol, a hynny'n amrywio o gymorth preswyl dwys ar lefel uchel i grwpiau gweithgaredd lefel isel, sy'n galluogi iddo ddiwallu ystod eang o anghenion. Mae adborth ynghylch y ddarpariaeth bresennol wedi bod yn hynod gadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid, sy'n helpu i gadarnhau bod y ddarpariaeth bresennol yn diwallu angen. Fodd bynnag, bydd monitro gwasanaethau'n barhaus i ddiwallu anghenion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn parhau i fod yn flaenoriaeth drwy gydol y strategaeth hon.

Nodwyd rhai bylchau a meysydd sy'n peri pryder yn ystod yr asesiad, gan gynnwys cynnydd yn y galw am lety, cynnydd mewn iechyd meddwl ymhlith defnyddwyr gwasanaethau ac aelwydydd ag anghenion cymhleth neu luosog.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid hefyd wedi amlygu rhai meysydd cymorth sy'n dod i'r amlwg. Mae'r defnyddio'r rhyngrwyd wedi arwain at fwy o gam-drin ar-lein, mae ddiffyg cynrychioli anghenion y gymuned LHDTC+ yn parhau o hyd ac mae'r cynnydd mewn gorgasglu yn rhai enghreifftiau o ble y gallai fod angen darparu mwy o gymorth ac ymyrraeth dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

## Meysydd amddifadedd

Mae ychydig o'r pwysau ehangach y mae trigolion yr awdurdod lleol yn ei wynebu yn effeithio ar y gwasanaeth tai, gan dynnu sylw at bwysigrwydd dulliau cydweithredol ac amlasiantaeth o ran mynd i'r afael ag angen.

Mae anweithgarwch economaidd, anghydraddoldeb ehangach a phocedi o amddifadedd ar draws Torfaen yn cyflwyno llawer o heriau, gyda galw cynyddol am wasanaethau cynhwysiant ariannol, diffyg opsiynau tai fforddiadwy yn arwain at fwy o ddibyniaeth ar dai cymdeithasol ac mewn ambell i achos, mwy o ddigartrefedd a chysgu ar y stryd.

Ni all yr adran dai liniaru'r pwysau hyn ar ei phen ei hun, ond mae'n bartner allweddol yn y gwaith o gyflawni cynllun Llesiant Torfaen a thrwy gydweithio â meysydd gwasanaeth eraill, gall gefnogi'r gwaith o ddarparu atebion hyfyw yn y tymor hir, a fydd yn galluogi pobl i gyflawni canlyniadau mwy cadarnhaol.

## 2.3 Casgliadau

Roedd y Datganiad Anghenion yn dangos yn glir bod rhai meysydd allweddol o alw a rhai themâu cyffredin, y bydd angen i'r awdurdod lleol fynd i'r afael â nhw. Mae rhai meysydd angen newydd hefyd yn dod i'r amlwg, y bydd angen eu monitro ymhellach ac o bosib, darparu cymorth yn y dyfodol.

Yr angen i ddarparu mwy o dai yn lleol; er mwyn bodloni'r galw presennol a'r galw sy'n dod i'r amlwg yn well, wedi'i amlygu'n glir yn yr asesiad o angen. Felly, mae datblygu mwy o ddarpariaeth tai â chymorth yn lleol wedi'i nodi fel un o'r blaenoriaethau allweddol yn y strategaeth hon.

Mae cynnydd yn y galw am wasanaethau, pwysigrwydd ymyrraeth gynnar a'r anghenion cymhleth sydd gan rhai aelwydydd, hefyd wedi'u hamlygu fel meysydd sy'n peri pwysau. Wrth ddatblygu'r blaenoriaethau yn y strategaeth hon, roedd yn bwysig adlewyrchu'r materion hyn o fewn y blaenoriaethau strategol a bod camau gweithredu addas yn cael eu rhoi ar waith i liniaru yng nghyd-destun y camau hyn, gan gynnwys atgyfnerthu'r mynediad at ddarpariaeth iechyd meddwl a darpariaeth VAWDASV, gwella ymyrraeth gynnar a gwasanaethau allgymorth pendant; sy'n arfau allweddol o ran mynd i'r afael â digartrefedd a helpu i sicrhau bod unrhyw ddigwyddiadau yn brin ac yn gryno, yn ogystal â gweithio ar y cyd ac yn adeiladol gyda phartneriaid i ymgorffori modd o ailgartrefu'n gyflym yn lleol.

Roedd y blaenoriaethau pellach a ddeilliodd o'r Datganiad Anghenion yn ymwneud â phwysigrwydd monitro ac adolygu'r galw am wasanaethau yn barhaus a sicrhau bod gwasanaethau'n weladwy ac yn hygyrch. Mae data presennol wedi dangos bod lefelau ymddieithrio ar gyfer rhai gwasanaethau yn uwch na'r disgwyl ac y gall fod rhwystrau sy'n gwneud mynediad yn anodd. Mae hefyd yn bwysig bod y Rhaglen Cymorth Tai yn parhau i adolygu ac addasu ei gwasanaethau wrth i dueddiadau newydd ddod i'r amlwg, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn addas i'r diben.

Yn olaf, mae'r pwysau o ran datblygu'r gweithlu wedi dod drwodd yn gryf iawn yn dilyn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid, gyda llawer o ddarparwyr yn ei chael yn anodd cadw neu recriwtio gweithlu cynaliadwy. Felly, un o flaenoriaethau'r strategaeth hon fydd parhau i gefnogi a chynorthwyo darparwyr i fynd i'r afael â'r maes penodol hwn sy'n peri pryder. Mae'r gallu i ddiwallu'r anghenion hyn yn llwyddiannus a darparu atebion priodol yn parhau'n heriol ac ni all un maes gwasanaeth ei gyflawni bob

amser. Fodd bynnag, gyda chydweithrediad gwell a darparu gwasanaeth mwy cydgysylltiedig, bydd y strategaeth hon yn gweithio i fodloni'r galw a nodwyd yn awr ac ar gyfer y dyfodol.

Wrth adolygu'r datganiad anghenion tynnwyd sylw at rai heriau ychwanegol sy'n effeithio ar y gymuned, gan effeithio'n gryf ar y gymuned leol o ganlyniad ffactorau ehangach. Mae'r heriau hyn, a elwir gyda'i gilydd fel 'argyfwng costau byw' yn cynnwys chwyddiant cynyddol, cynnydd mewn costau benthyca sy'n effeithio ar fforddiadwyedd morgeisi, costau rhent cynyddol yn y sector preifat a'r cynnydd mewn prisiau ynni. Mae hyn wedi arwain at fwy o bobl ac aelwydydd yn y gymuned yn wynebu tlodi ac felly'n troi at wasanaethau tai a gwasanaethau cymorth.

# 3. Blaenoriaethau Strategol

## 3.1 Blaenoriaethau, amcanion strategol a chymorth sy’n gysylltiedig â thai yn lleol

1. **Adolygu a datblygu ein cynnig llety â chymorth i ddiwallu anghenion llety a chymorth unigolion sy'n fregus yn ein cymuned.**

Roedd y galw am lety wedi'i nodi'n glir fel maes angen yn yr asesiad, yn enwedig o ran aelwydydd un person. Mae nifer yr aelwydydd un person sy’n cyflwyno eu hunain yn ddigartref, yn mynd i lety dros dro, yn cysgu ar y stryd neu’n methu â chael llety oherwydd cyflenwad cyfyngedig a chostau cynyddol (yn enwedig o ganlyniad diwygiadau i fudd-daliadau lles), wedi gwneud hyn yn fater brys eithriadol, gyda llawer o rhanddeiliaid yn nodi bod llety yn flaenoriaeth allweddol

Bydd y flaenoriaeth strategol hon yn cael ei chyflawni drwy adlinio gwasanaethau llety presennol a dull partneriaeth ar draws ystod o asiantaethau a darparwyr. Bydd llety ychwanegol hefyd ar gael drwy brosiectau tai â chymorth sydd eisoes yn bodoli, ochr yn ochr ag unedau llety gwasgaredig eraill a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen drwy ei ddarpariaeth statudol.

Y camau allweddol i gyflawni'r flaenoriaeth hon yw:

- Byddwn yn deall anghenion a’r galw gan ein cymunedau i ddatblygu opsiynau llety â chymorth i ddiwallu anghenion a galw sy'n dod i'r amlwg.
- Byddwn yn cynyddu'r cyflenwad o unedau llety sengl â chymorth i gynorthwyo pobl sengl sy'n wynebu digartrefedd i gael mynediad i lety, a chadw’r llety hwnnw.
- Byddwn yn sicrhau bod yr holl unigolion sy’n cael llety dros dro yn cael hyd i gymorth.
- Byddwn yn datblygu a threialu dulliau arloesol i ddatrys yr anghenion a’r heriau sy’n dod i’r amlwg, a hynny drwy fenter grant i’n galluogi i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio

**Diweddariad 2025/26**

Er gwaethaf cynyddu niferoedd y tai â chymorth sydd ar gael drwy ddatblygu Cynllun Pearl House (15 gwely) ac ehangu'r prosiect LLety â Chymorth i Bobl Ifanc (4 gwely ychwanegol), mae'r galw am Tai â Chymorth yn parhau i fod yn gyson uchel ac yn aml mae yna rhestr aros ac mae anghenion preswylwyr sy'n cael eu lletya mewn lleoliadau tai â chymorth yn fwyfwy cymhleth.

Yn ystod y flwyddyn nesaf:

- byddwn yn parhau i ehangu’r prosiect tai â chymorth gwasgaredig gan weithio gyda'n cyflenwr a'n landlordiaid i sicrhau eiddo o ansawdd da, sy’n addas i reoli'r galw.

- Byddwn yn adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli darpariaethau a lleoliadau tai â chymorth, er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu prosesau a llwybrau cadarn o ran 'symud ymlaen'.
- Byddwn yn archwilio'r cyfleoedd i ehangu opsiynau llety â chymorth a lletyau lled-gefnogaeth ychwanegol gyda sefydliadau sy'n bartneriaid ledled y fwrdeistref sirol

## 2. Atgyfnerthu’r gallu i gael hyd i gymorth iechyd meddwl i fodloni'r cynnydd yn y galw

Nododd yr asesiad gynnydd yn nifer y bobl ag anghenion cymhleth sydd angen mynediad at ddarpariaeth cymorth iechyd meddwl. Iechyd Meddwl oedd yr ail angen uchaf ymhlith defnyddwyr gwasanaethau’r Rhaglen Cymorth Tai ac mae nifer yr asesiadau Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (GCIMSLI) ar draws Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn parhau i fod yn uchel.

Er mwyn bodloni'r fath lefel barhaus o alw, bydd yr awdurdod yn adolygu’r ddarpariaeth bresennol yn drylwyr ac yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau bod gwasanaethau effeithiol yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.

Y camau allweddol i gyflawni’r flaenoriaeth hon yw:

- Byddwn yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i adolygu'r gwasanaethau iechyd meddwl sy’n cael eu darparu, i ddeall y bylchau yn y gwasanaethau sy’n cael eu darparu ar hyn o bryd, a datblygu datrysiadau cymorth tai.
- Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau cymorth tai o ran iechyd meddwl yn hygyrch trwy ddarparu ystod o opsiynau gwasanaeth.
- Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr cymorth yn gallu cael mynediad at hyfforddiant iechyd meddwl sylfaenol i gefnogi unigolion ag anghenion iechyd meddwl mewn ffordd effeithiol
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid iechyd meddwl, yn lleol ac yn rhanbarthol i ddiwallu anghenion pobl ag anhwylder celcio.

**Diweddariad 2025/26**

Yn ystod 2025/26 fe wnaethom ail-gomisiynu ein cymorth cymunedol iechyd meddwl gwasanaeth tai â chymorth ac ail-ffurfweddu agweddau ar y ddarpariaeth i gyd-fynd â'r model atal ac ymyrraeth gynnar a Strategaeth Cymunedau a Lles Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, gan gyflwyno elfen gyswllt cymunedol i gefnogi’r gwaith o feithrin perthnasoedd, rhwydweithiau a phartneriaethau i gefnogi’r gwaith o gynnal lles.

Fe wnaethom hefyd dreialu a gwerthuso gwasanaeth sy’n anelu i gefnogi unigolion sydd ag ymddygiadau celcio, sy’n dod i’r amlwg, er mwyn rheoli effaith celcio ar eu gallu i gynnal llety. Mae'r gwasanaeth hwn yn parhau i ddenu galw sylweddol a rhestr aros uchel, ac mae tystiolaeth bod y preswylwyr hynn sy'n cael eu cefnogi yn dangos canlyniadau cadarnhaol.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn:

- Cefnogi’r gwaith o weithredu'r contract newydd, a’i fonitro, i sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion y gymuned.
- Ymestyn cynllun peilot y gwasanaeth celcio wrth archwilio'r trefniadau comisiynu tymor hwy ar gyfer y prosiect.
- Parhau i weithio gyda rhanddeiliaid a'r Bartneriaeth Tai Strategol i ddatblygu llwybrau a threfniadau sy'n gysylltiedig â rheoli

cymhlethdod ac anghenion sy’n codi ar y cyd o fewn y gwasanaethau cymorth tai.

3. **Gwella gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac allgymorth pendant i leihau effaith negyddol digartrefedd.**

Mae gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac allgymorth pendant wedi’u nodi fel y ffordd fwyaf effeithiol o leihau digartrefedd a’r peryglon sy’n gysylltiedig ag ef, ac mae Torfaen wedi cael rhywfaint o lwyddiant o ran atal digartrefedd yn lleol, trwy ddulliau ataliol.

Bydd Torfaen yn cyflawni’r flaenoriaeth hon drwy ddatblygu ei becyn atal digartrefedd ymhellach ac adeiladu ar yr arfer da sy’n mynd rhagddo ar hyn o bryd, i sicrhau bod lefelau digartrefedd yn cael eu lleihau ymhellach.

Y camau allweddol i gyflawni’r flaenoriaeth hon yw:

- Byddwn yn hyrwyddo gwasanaethau cymorth tai a mentrau ymyrraeth gynnar sydd ar gael i alluogi trigolion i gael mynediad at gyngor a chymorth tai mewn modd amserol.
- Byddwn yn galluogi mynediad i gyngor a chefnogaeth ariannol amserol i alluogi cynnal llety.
- Byddwn yn sicrhau bod darpariaeth allgymorth grymusol ar gael i gynorthwyo unigolion sydd mewn perygl o droi at gysgu ar y stryd.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol (LCC a phartneriaid ehangach) trwy'r Bartneriaeth Tai Strategol) i hyrwyddo'r agenda dim troi allan.
- Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid a darparwyr i sicrhau dull cydgysylltiedig o ran cael mynediad at gymorth atal ac ymyrraeth gynnar i atal a lliniaru effeithiau digartrefedd.
- Byddwn yn gweithio ar y cyd i ymgorffori dulliau Atal ac Ymyrraeth Gynnar yn rhan o’r gwaith i ddarparu gwasanaethau Grant Cymorth Tai

**Diweddariad 2025/26**

Yn ystod 2025/26 fe wnaethom gychwyn ar raglen drawsnewid a lwyddodd i ail-ffurfweddu ymagwedd y Cyngor at ddarparu Gwasanaethau Atal ac Ymyrraeth Gynnar trwy ddod ag arbenigedd ymyrraeth gynnar ac atal ynghyd o ystod eang o feysydd mewn un hwb.

Fe wnaethom rhoi contract newydd ar waith i gefnogi'r rhai sy'n wynebu digartrefedd, gan ddod â chapasiti ein gwasanaeth cymorth argyfwng a darpariaeth allgymorth cysgu ar y stryd at ei gilydd i ddatblygu'r Gwasanaeth Ymateb Cyflym ac Ymyrraeth gan wneud y defnydd gorau o allu a hyblygrwydd i ddiwallu anghenion y gymuned.

Fe wnaethom hefyd fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu trefniadau partneriaeth a phanel i gefnogi ein menter tai yn gyntaf i gefnogi sefydlu'r prosiect Tai yn Gyntaf yn Nhorfaen. O ganlyniad, rydym yn gweld galw cynyddol am y gwasanaeth hwn.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn:

- Parhau i ymgorffori'r dull Cymunedau ac Ymyrraeth Gynnar ac Atal wrth ddarparu gwasanaethau Tai a Chyflenwi’r Grant Cymorth Tai.
- Byddwn yn adolygu capasiti'r prosiect Tai yn Gyntaf ac yn ystyried ehangu'r cynllun i gefnogi dasg o rheoli'r galw am y gwasanaeth.

**4. Atgyfnerthu’r gallu i gael hyd i ddarpariaeth cymorth VAWDASV i fodloni'r cynnydd yn y galw**

Mae data a gasglwyd drwy’r Asesiad Anghenion wedi dangos bod galw mawr am wasanaethau sy’n ymwneud â VAWDASV. Torfaen sydd wedi cael y gyfradd uchaf o droseddau rhyw fesul 1000 o bobl yng Ngwent yn y blynyddoedd diwethaf, tra bod cymorth i fenywod sy’n dioddef cam-drin domestig yn parhau i fod yn un o’r prif resymau pam mae defnyddwyr gwasanaethau’n defnyddio’r Rhaglen Cymorth Tai. Fe wnaeth asesiad anghenion VAWDASV Gwent hefyd dynnu sylw at yr angen am gymorth yn y gwasanaeth sy'n ymestyn ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

Er mwyn cyflawni’r flaenoriaeth hon, bydd angen parhau i alinio â gwasanaethau rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod gwasanaethau’n cael eu darparu’n effeithiol a bod cyfleoedd i gydweithio’n cael eu harchwilio.

Y camau allweddol i gyflawni’r flaenoriaeth hon yw::

- Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r fforymau VAWDASV ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i ddatblygu ac alinio blaenoriaethau strategol a chynlluniau comisiynu.
- Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau hygyrch ar gael trwy ddarparu ystod o opsiynau gwasanaeth i gefnogi dioddefwyr VAWDASV i deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain, nodi patrymau ymddygiad ymosodol a llwyddo i fyw'n annibynnol cyn belled ag y bo modd yn eu cymuned.
- Byddwn yn sicrhau bod menywod sy'n fregus (gan gynnwys y rhai â phlant dibynnol) ag anghenion cymhleth sy'n ffoi o'u cartref oherwydd problemau VAWDASV yn gallu cael mynediad at ystod o opsiynau lloches i ddiwallu eu hanghenion a'u hamgylchiadau.
- Byddwn yn cefnogi mynediad at Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA), Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) a'r Rhaglen Rhyddid neu wasanaethau cyfatebol.
- Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau i ddioddefwyr Cam-drin Domestig ar gael i bob unigolyn sydd angen cymorth sy'n ymwneud â thai.
- Byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i nodi'r rhwystrau i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth yn y gymuned i sicrhau bod yna fynediad a thriniaeth gyfartal.

**Diweddariad 2025/26**

Yn ystod 2025/26 fe wnaethom barhau i ymgysylltu â fforymau VAWDASV ar lefelau lleol a rhanbarthol i sicrhau bod y blaenoriaethau strategol a gweithredol yn cael eu cynnal. Rydym yn parhau i weithio gyda gwasanaethau VAWDASV i sicrhau bod y ddarpariaeth gymunedol a’r lloches

a ddarperir yn parhau i ddiwallu anghenion trigolion sydd angen cymorth VAWDASV hanfodol. Mae rheoli anghenion cymhleth ac anghenion sy’n cyd-ddigwydd yn parhau i fod yn her o ran tai â chymorth a darparu lloches.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaeth VAWDASV i alinio blaenoriaethau a bwriad comisiynu. Gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr rhanbarthol, byddwn yn parhau i fonitro'r ddarpariaeth ar gyfer y rhai sy'n cyflwyno cymhlethdod a chynnal darpariaeth llety ledled y rhanbarth.

**5. Trwy ddeddfwriaeth a pholisïau, ymgorffori dulliau Ailgartrefu Cyflym i sicrhau pan fydd yna achos o ddigartrefedd, ei fod yn gyfnod byr ac na fydd yn digwydd eto.**

Mae darparu llety brys i aelwydydd digartref wedi bod yn ffocws allweddol i’r awdurdod lleol, o ran darparu cartref dros dro, sy’n ddiogel wrth iddynt ddisgwyl ateb hirdymor.

Fodd bynnag, mae modd aros mewn llety dros dro am gyfnod sylweddol o amser, a all gael effaith negyddol ar les a byddai wedi bod modd lliniaru hyn pe bai cyfle i symud i lety mwy sefydlog wedi digwydd yn gynt. Yn ogystal, nododd yr asesiad anghenion bod llety dros dro wedi ei gynnig i nifer sylweddol o aelwydydd yn Nhorfaen, ond ni fanteisiwyd ar hyn.

Manteision mabwysiadu dull Ailgartrefu Cyflym yw y bydd yn ceisio cynnig tai tymor hir i bobl cyn gynted â phosibl, tra hefyd yn rhoi cymorth ychwanegol iddynt i'w galluogi i gadw'r llety hwn, gan ddileu'r angen, o bosib, i aros am gyfnod hi mewn cartref dros dro.

Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hon, bydd yr awdurdod lleol yn datblygu ac yn mabwysiadu Cynllun Trosiannol o ran Ailgartrefu’n Gyflym, gan nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni'r flaenoriaeth hon.

Y camau allweddol i gyflawni’r flaenoriaeth hon yw:

- Byddwn yn bwrw ymlaen i ddatblygu dulliau i sicrhau os bydd achos o ddigartrefedd, ei fod yn brin, yn gyfnod byr ac na fydd yn digwydd eto.
- Byddwn yn adolygu polisïau, gweithdrefnau a llwybrau i alluogi mabwysiadu dull ailgartrefu cyflym.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu a chyfleu’r dull a'r cynllun ailgartrefu cyflym.
- Byddwn yn ymgorffori egwyddorion y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) gan sicrhau bod cymorth hygyrch i'r rhai sydd mewn perygl o ddigartrefedd.

**Diweddariad 2025/26**

Yn ystod 2025/26 fe wnaethom barhau i ddatblygu Dulliau Ailgartrefu Cyflym trwy ddarparu mwy o gapasiti o fewn y gwasanaethau Tai â Chymorth ac agor prosiect Pearl House ochr yn ochr â datblygu dull cydgysylltiedig i symud ymlaen er mwyn hwyluso opsiynau ailsefydlu. Rydym wedi diweddaru'r

flaenoriaeth hon i gynnwys newidiadau ehangach o ran deddfwriaeth a pholisïau, fel Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru).

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i ymgorffori egwyddorion y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol wrth fynd ati i ddarparu gwasanaethau.

**6. Parhau i fonitro ac asesu lefelau'r galw am gymorth sy'n ymwneud â thai, gan adolygu ac addasu gwasanaethau i fodloni tueddiadau a gofynion cyfredol y bobl sy'n ddigartref neu a allai ddod yn ddigartref.**

Fe wnaeth yr asesiad anghenion, ac yn arbennig adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, dynnu sylw at y ffaith bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd yn hynod gadarnhaol a'u bod eisoes yn bodloni llawer o anghenion penodol.
Fodd bynnag, daeth rhai materion i'r amlwg y bydd angen eu monitro ymhellach, er mwyn pennu eu heffaith hirdymor ar ddarparu gwasanaethau; er enghraifft, lefelau diffyg ymgysylltu ac ymddieithrio, nifer y defnyddwyr gwasanaethau sy'n cael cymorth am gyfnod hwy ac effeithiau posibl poblogaeth sy'n heneiddio.
Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hon bydd y gwasanaeth yn parhau i gasglu gwybodaeth a fydd yn galluogi meithrin dealltwriaeth drylwyr o'r galw am wasanaethau a'r gofynion sy'n dod i'r amlwg.

Y camau allweddol i gyflawni'r flaenoriaeth hon yw:

- Byddwn yn gweithio gyda'n darparwyr a'n rhanddeiliaid i adolygu a monitro'r gwasanaethau a ddarperir i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn ymatebol ac yn berthnasol.
- Byddwn yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i ddatblygu a gwella ein cynnig cymorth.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda'r gymuned o ddarparwyr i ymateb i dueddiadau a materion sy'n dod i'r amlwg, ac addasu iddynt.
- Byddwn yn adolygu gallu'r ddarpariaeth yn rheolaidd i ymateb i unrhyw anghenion sy'n dod i'r amlwg, y galw a thirwedd strategol sy'n newid.

**Diweddariad 2025/26**

Yn ystod y flwyddyn hon buom yn gweithio'n agos gyda darparwyr a rhanddeiliaid i gefnogi'r trefniadau trawsnewid i ymgorffori'r model Atal ac Ymyrryd yn Gynnar wrth gynnal rhaglen i adolygu, monitro a chomisiynu gwasanaethau.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i ddatblygu'r blaenoriaethau a'u cyflawni i ymateb i'r newidiadau sy'n codi wrth drawsnewid y gwasanaeth.

**7. Atgyfnerthu ac adeiladu dulliau cydweithredol a phartneriaethau adeiladol i wella canlyniadau i aelwydydd sy'n ddigartref**

Mae pwysigrwydd gweithio ar y cyd ac adeiladu ar arfer da sydd eisoes yn bodoli, wedi'i nodi drwy'r asesiad o anghenion a thrwy ymgynghori â

rhanddeiliaid, fel cam pwysig i ddarparu gwasanaeth cyfannol a fydd yn mynd i’r afael yn effeithiol ag ystod o anghenion lluosog a chymhleth.

Cyflawnir hyn drwy ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r ddarpariaeth bresennol ac adolygu’r ffordd orau y gall y gwasanaethau hyn ddiwallu anghenion y rhai sy'n eu defnyddio.

Y camau allweddol i gyflawni’r flaenoriaeth hon yw:

- Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chydweithwyr rhanbarthol Gwent i ddatblygu gwasanaethau a gomisiynir ar y cyd a rhannu gwybodaeth ac adnoddau (lle bo'n briodol) yn y ffordd orau i ddiwallu'r anghenion a'r galwadau sy'n dod i'r amlwg yn rhanbarth Gwent.
- Byddwn yn parhau i ymgysylltu â fforymau amlasiantaeth i ddatblygu atebion cydweithredol i'r heriau yr ydym yn eu hwynebu.
- Ymgysylltu â'r Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA) i hyrwyddo darpariaethau a llwybrau ar gyfer camddefnyddio sylweddau.
- Byddwn yn gweithio gyda gwasanaethau plant i roi llwybr ar waith ar gyfer pobl ifanc a allai hefyd fod yn gadael gofal.
- Rydym yn parhau i weithio ar y cyd â chydweithwyr rhanbarthol i archwilio ymatebion i anghenion cymhleth fel llwybrau rhyddhau o’r ysbyty i atal digartrefedd ac ymateb i anhwylderau celcio.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo dealltwriaeth ar y cyd am rolau a chyfrifoldebau gan hyrwyddo datblygu dulliau cydweithredol o gefnogi unigolion ac aelwydydd.

**Diweddariad 2025/26**

Yn ystod 2025/26 dechreuodd Cyngor Torfaen ar raglen uchelgeisiol i ailgynllunio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gyflawni Cynllun Sirol y Cyngor a’i Strategaeth Cymunedau.  Mae'r ailgynllunio wedi dod â chymorth atal ac ymyrraeth gynnar ynghyd a dulliau i gryfhau partneriaethau strategol ymhellach at ei gilydd ar lefel leol.  Yn ogystal, mae'r Bartneriaeth Tai Strategol yn parhau i ddatblygu dulliau partneriaeth ledled yr ardal i hyrwyddo blaenoriaethau tai lleol.  Rydym yn parhau i ymgysylltu'n rhanbarthol ag ystod eang o bartneriaid drwy Gydweithrediad Grant Cymorth Tai Rhanbarthol Gwent i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau rhanbarthol o gyflawni'r rhaglen a'r strategaeth Grant Cymorth Tai.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i ddatblygu dulliau a phartneriaethau cydweithredol trwy ymgorffori'r Gwasanaeth Atal ac Ymyrraeth Gynnar.

**8. Gwella mynediad at wasanaethau Cymorth Tai drwy fabwysiadu'r llwybr Atal ac Ymyrraeth Gynnar, gan sicrhau bod mynediad at wasanaethau cymorth tai yn cael ei gydlynu.**

Fe wnaeth yr asesiad anghenion dynnu sylw’n glir at lle'r oedd gwaith ymyrraeth gynnar yn cael ei wneud, roedd y canlyniadau'n aml yn fwy llwyddiannus na'r achosion hynny lle darparwyd cymorth yn ddiweddarach. Fodd bynnag, nododd ymgynghoriad â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid fod gwybodaeth am y gwasanaeth tai a gwasanaethau RhCT yn

aml yn gyfyngedig a bod codi ymwybyddiaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig.

Bydd codi proffil y gwasanaethau sydd ar gael yn cael ei gyflawni trwy ddefnyddio ystod eang o ddulliau cyfathrebu, ar y cyd â’n partneriaid allweddol, a thrwy dargedu gofalus i sicrhau bod trawstoriad mor eang â phosibl o’r boblogaeth yn ymwybodol o’r cymorth sydd ar gael.

Y camau allweddol i gyflawni’r flaenoriaeth hon yw:

Sicrhau bod gwasanaethau cymorth tai yn hygyrch ac yn ymatebol i anghenion y trigolion.

- Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau'n cyd-fynd â'r Strategaeth Cymunedau a Gwasanaethau Cymorth Atal ac Ymyrraeth Gynnar fel bod modd rhoi’r cymorth cywir, yn y lle iawn ar yr adeg iawn.
- Adolygu’r gwasanaeth 'galw heibio' yr ydym yn ei ddarparu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cydgysylltu'n strategol a’u bod yn ymatebol i anghenion trigolion.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod egwyddorion yr ymagwedd gymunedol ac atal ac ymyrraeth gynnar, yn cael eu hymgorffori yn y Rhaglen Grant Cymorth Tai.

**Diweddariad 2025/26**

Yn ystod 2025/26 dechreuodd Cyngor Torfaen ar raglen uchelgeisiol i ailgynllunio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gyflawni Cynllun Sirol y Cyngor a’i Strategaeth Cymunedau. Mae'r ailgynllunio wedi dod ag atal ac ymyrraeth gynnar at ei gilydd i ddarparu dull cydgysylltiedig o feithrin cydnerthedd cymunedol a chefnogi'r rhai sydd angen y gwasanaeth fwyaf. Mae'r flaenoriaeth hon wedi'i diwygio i adlewyrchu'r newid o ran dull gweithredu.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid:

- I ymgorffori egwyddorion y dull Cymunedau ac Atal ac Ymyrraeth Gynnar
- Sefydlu cyfleoedd i ail-alinio gwasanaethau i adlewyrchu datblygiad y dull hwn a diwallu anghenion y gymuned.

## 9. Buddsoddi yn natblygiad y gweithlu i sicrhau gweithlu tra medrus, ymatebol a chynaliadwy.

Mae ymgynghoriad a thrafodaethau parhaus gyda darparwyr gwasanaethau wedi tynnu sylw at y ffaith eu bod yn cael trafferth recriwtio a chadw staff, sy’n cael effaith ar y Rhaglen Cymorth Tai a’r gallu i gomisiynu a darparu gwasanaethau.

Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hon byddwn yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau i nodi meysydd lle mae yna bwysau, a rhoi camau priodol ar waith i'w datrys.

Y camau allweddol i gyflawni'r flaenoriaeth hon yw:

- Parhau i gynorthwyo'r gymuned o ddarparwyr i ddatblygu gwahanol ddulliau i hyrwyddo recriwtio i'r sector cymorth.
- Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr cymorth yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant sylfaenol priodol ac angenrheidiol i ddarparu cymorth i unigolion ag ystod o anghenion cymhleth yn effeithiol.
- Byddwn yn cynnal asesiad o anghenion hyfforddi yn rheolaidd i ddeall sgiliau ac anghenion hyfforddi'r sector yn Nhorfaen.
- Sicrhau bod arferion comisiynu a chaffael yn cyfrannu at ddatblygu gweithlu cynaliadwy.
- Trwy arferion comisiynu, sicrhau bod pob contract yn cefnogi Egwyddorion Gwaith Teg Llywodraeth Cymru a bod pob gweithiwr cymorth yn cael y cyflog byw gwirioneddol.

**Diweddariad 2025/26**

Mae buddsoddi mewn gweithlu sy'n fedrus, yn ymatebol ac yn gynaliadwy yn parhau i fod yn flaenoriaeth wrth gyflawni'r Rhaglen Cymorth Tai yn Nhorfaen. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi adolygu dulliau comisiynu i adlewyrchu egwyddorion Gwaith Teg Llywodraeth Cymru ac wedi gweithio'n agos gyda chyflenwyr i ddeall anghenion y sector o ran hyfforddiant a sgiliau.
Yn ystod 2025/26, ar ôl cynnal ymarfer anghenion hyfforddi gyda darparwyr, fe wnaethom barhau i ariannu a sicrhau bod hyfforddiant ar gael ar gyfer iechyd meddwl, budd-daliadau a diwygio lles, camddefnyddio sylweddau ac ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth i'r holl staff rheng flaen.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn cynnal ein hymrwymiad i gyflawni'r flaenoriaeth hon trwy'r camau allweddol a amlygwyd uchod.

## 3.2 Amcanion strategol y cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn rhanbarthol

Mae rhai anghenion sy'n gyffredin ar draws y rhanbarth, y gellir mynd ati i'w diwallu'n fwy effeithiol trwy weithredu dull cydweithredol.

Datblygwyd yr amcanion canlynol a chytunwyd arnynt gan bartneriaid, a'r Grŵp Cydweithredol ar gyfer Cymorth Tai Rhanbarthol i'w cyflawni ar sail ranbarthol:

- Darparu gwasanaethau effeithiol ac ymatebol o ansawdd uchel
- Ehangu ein cyrhaeddiad trwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth
- Atgyfnerthu ymgysylltiad a hygyrchedd

**Darparu gwasanaethau effeithiol ac ymatebol o ansawdd uchel**

Wrth fynd ati i ddatblygu'r strategaeth hon, nodwyd bod darparwyr gwasanaethau; y mae llawer ohonynt yn gweithio ar draws y rhanbarth, yn cael trafferth ar hyn o bryd i recriwtio a chadw staff, felly mae mabwysiadu ymateb rhanbarthol i'r pwysau hwn wedi'i nodi fel ffordd fwy effeithiol o fynd i'r afael â'r broblem hon.

I gyflawni'r amcan hwn, bydd y mentrau hyn yn cael eu rhoi ar waith:

- Hyrwyddo a chynyddu cyfleoedd hyfforddi i staff
- Datblygu llwyfan RhCT rhithiol ar lein a'i ddefnyddio i gynnal diwrnod agored ar lein.

**Ehangu'r hyn yr ydym yn ei gynnig drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth**

Mae rhanbarth Gwent wedi cydweithio ers blynyddoedd lawer mewn partneriaeth i ehangu'r ystod o wasanaethau y mae'n eu darparu. Mae comisiynu gwasanaethau ar y cyd yn y modd hwn wedi bod yn ffordd effeithiol ac effeithlon o ddarparu gwasanaethau pwrpasol i'r gymuned. Mae parhau i weithio fel hyn yn parhau i fod yn un o'r blaenoriaethau i rhanbarth Gwent a bydd yn cael ei gyflawni drwy'r mentrau a ganlyn:

- Bydd Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol yn gweithio fel fforwm i gysylltu, a gwella gwasanaeth ar draws y pedwar maes canlynol: VAWDASV, Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl a Throseddwyr
- Bydd Timau Grant Cymorth Tai yn cydweithio i ddatblygu fframwaith cynllunio anghenion strategol a chynhwysol Gwent

**Atgyfnerthu ymgysylltiad a hygyrchedd**

Mae ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid wedi'i gydnabod ers tro fel proses bwysig o ran monitro a darparu gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o'r gwasanaethau yn cael cyfle i leisio'u barn. Ynghyd â hyn, yw pwysigrwydd hygyrchedd a sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad hawdd at y cymorth sydd ei angen arnynt. Trwy weithgareddau ymgysylltu rheolaidd, mae pwysigrwydd hygyrchedd wedi'i amlygu fel maes sy'n peri pryder, yn enwedig mewn perthynas â chynhwysiant digidol. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn yn llwyddiannus, bydd y mentrau canlynol yn cael eu rhoi ar waith:

- Gwella sgiliau cynhwysiant digidol ar draws ein cymuned o ddefnyddwyr gwasanaethau
- Cynyddu nifer y ffyrdd sydd ar gael i bobl sy'n darparu ac yn derbyn gwasanaethau gymryd rhan.

# 4. Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae ymgysylltu ac ymgynghori yn rhan annatod o gyflenwi gwasanaethau yn Nhorfaen, ac mae defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid yn cael cyfle rheolaidd i roi eu barn a'u safbwyntiau. Mae ymgysylltu yn hanfodol i ddatblygiad cynllun cyflawni'r RhCT blynyddol, tra hefyd yn cynorthwyo gyda gwelliant parhaus y gwasanaeth y RhCT, ar lefel leol a rhanbarthol.

Wrth ymgysylltu, roedd yn bwysig rhoi sylw i bum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, er mwyn sicrhau bod y dulliau a fabwysiadwyd a'r canlyniadau, yn arwain at ganlyniadau cynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.

Mae Torfaen yn ymgysylltu'n rheolaidd ac yn barhaus â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid, yn ogystal â chynnal ymgynghoriad blynyddol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill Gwent. Mae hyn wedi golygu bod ymagwedd gydweithredol, hirdymor tuag at ymgysylltu yn cael ei mabwysiadu ac yr ymgynghorir yn rheolaidd â phartneriaid allweddol a defnyddwyr gwasanaethau o ystod eang o sefydliadau a'u bod yn cael eu cynnwys.

Trwy ymgysylltu a chydweithio parhaus, gall y gwasanaeth RhCT ragweld meysydd o bwysau yn well a mabwysiadu ymagwedd ataliol at ddiwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg. Mae hefyd wedi galluogi mwy o gyfranogiad gan y bobl yr effeithir arnynt fwyaf gan y gwasanaethau Tai a RhCT ac mae wedi caniatáu iddynt chwarae rhan weithredol yn y gwaith o lunio gwasanaethau. Yn ogystal, trwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill Gwent, bu'n bosibl nodi cyfleoedd rhanbarthol yn ogystal â lleol i ddiwallu anghenion presennol, a chydweithio i'w cyflawni.
.

## 4.1 Rhanddeiliaid

Ym mis Hydref 2025, aeth Awdurdodau Lleol Gwent ati i gynnal eu hymgysylltiad blynyddol â rhanddeiliaid. Gan adeiladu ar adborth a gafwyd yn y blynyddoedd blaenorol, gwahoddwyd rhanddeiliaid i wneud sylwadau ar nifer o themâu:

- Cefnogi Unigolion ag anghenion cymhleth
- Iechyd a Llesiant
- Bylchau o ran rhoi cymorth
- Arfer Digartrefedd
- Pwysau'r Gweithlu

Mae'r canlynol yn rhestr o'r rhanddeiliaid a wahoddwyd i gymryd rhan:

- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r RhCT
- Gofalwyr a theuluoedd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r RhCT
- Iechyd
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Gwasanaeth Prawf
- Yr Heddlu
- Byrddau Partneriaeth VAWDASV
- Byrddau Cynllunio Rhanbarthol Camddefnyddio Sylweddau

- Y Grant Plant a Chymunedau
- Darparwyr RhCT
- Landlordiaid

Daeth 221 o randdeiliaid i'r digwyddiad gan dynnu sylw at y themâu canlynol sy'n effeithio ar ddarparu a chyflenwi gwasanaethau:

- Cynnydd o ran cymhlethdod, risg ac anghenion sy'n cyd-ddigwydd.
- Lefelau uwch o ymddieithrio
- Diffyg tai fforddiadwy a llety priodol i symud ymlaen
- Angen mwy o gydweithredu a gweithio amlasiantaeth.
- Pwysau'r gweithlu

<u>Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Lleol</u>

Yn ogystal â'r arolygon ar-lein, aeth Torfaen ati i ymgysylltu â'i ddarparwyr a'i rhanddeiliaid lleol. Roedd y digwyddiad yn gyfle i gynnal trafodaethau rhwng y gwahanol ddarparwyr gwasanaethau a'r awdurdod lleol, gan roi cyfle i rannu profiadau ac adnabod themâu cyffredin ac adolygu'r blaenoriaethau.

Yn rhan o'r adolygiad llai manwl, cynhaliwyd gweithdy gyda rheolwyr y gwasanaethau er mwyn adolygu'r blaenoriaethau a thynnu sylw at gyfleoedd i ddatblygu a symud ymlaen. Roedd yr adborth yn ailadrodd y mewnbwn trwy'r digwyddiad rhanddeiliaid ac yn nodi, er bod y blaenoriaethau o fewn y strategaeth yn parhau i fod yn strategol berthnasol a hyd yn oed yn fwy perthnasol yn yr hinsawdd sydd ohoni ar hyn o bryd, mae cyfleoedd i gryfhau'r alinio â datblygiadau strategol a gweithredol diweddar.

<u>Ymgysylltu parhaus</u>

Yn ogystal â'r digwyddiadau ymgysylltu penodol hyn, ymgynghorir â defnyddwyr gwasanaethau yn rheolaidd am eu profiadau. Dosberthir arolygon bob mis at gleientiaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth atebion tai, a chynhelir gwaith arolwg rheolaidd yn rhan o broses dendro'r RhCT. Mae defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr yn cael eu cyfweld pan gaiff gwasanaethau eu monitro a'u hadolygu.

Mae Torfaen hefyd yn cyfarfod â'i ddarparwyr gwasanaethau yn rheolaidd trwy fforwm amlasiantaeth, i'w diweddaru a darparu gwybodaeth am unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau a all fod yn digwydd o fewn y sector. Mae hyn yn helpu i gynnal lefelau da o gyfathrebu parhaus ac yn helpu i feithrin gwell cyfranogiad a chydweithio, gan wella gallu'r RhCT a'r gwasanaeth Tai i ddiwallu anghenion hirdymor, gweithredu dulliau ataliol a chyflawni gwell integreiddio. Mae hefyd yn sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o gyflenwi'r gwasanaethau Tai a RhCT.

Mae'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cefnogi'r 5 ffordd o weithio, drwy gynnwys ystod eang o bobl i nodi blaenoriaethau, cydweithio â rhanddeiliaid a phartneriaid awdurdodau lleol, cyflawni canlyniadau hirdymor a sicrhau y gellir gweithredu dulliau ataliol i fynd i'r afael ag anghenion sy'n dod i'r amlwg cyn i sefyllfaoedd waethygu. Mae Torfaen yn cyflawni hyn trwy ymgysylltu'n

barhaus ac mewn ffordd integredig â'i randdeiliaid, sy'n ei alluogi i ddeall anghenion sy'n dod i'r amlwg yn dda, a nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth wrth iddynt godi.

## 4.2 Adborth

Mae'r adborth a gafwyd yn dilyn y gwahanol gyfleoedd ymgysylltu wedi bod yn hynod gadarnhaol a chasglwyd rhywfaint o wybodaeth gadarn a manwl, sydd wedi ailddatgan a llywio ein dealltwriaeth o'r anghenion a'r pwysau y mae rhai sy'n derbyn ac yn darparu cymorth yn ei wynebu, felly'n helpu i lunio'r blaenoriaethau strategol. Ymysg rhai o'r themâu allweddol a ddeilliodd o'r ymgysylltu oedd:

**Diffyg llety**

Mae'r angen am fwy o lety a gwahanol ddewis o lety wedi'i nodi'n aml drwy'r broses ymgysylltu ac mae'n parhau i fod yn her hirdymor yn Nhorfaen.

**Gwell cydweithio a gweithio mewn partneriaeth**

Ceir rhai enghreifftiau cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth a chydweithio ar hyn o bryd, ond mae angen rhagor o waith i sicrhau bod yr holl wasanaethau'n cydweithio'n effeithiol a bod bylchau yn y ddarpariaeth yn cael eu llenwi cyn belled ag y bo'n rhesymol yn ymarferol i wneud hynny.

**Anghenion Cymhleth**

Mae adborth wedi dangos bod mwy o ddefnyddwyr gwasanaethau bellach ag anghenion cymhleth neu luosog na ellir eu diwallu gan un maes gwasanaeth yn unig, gan gefnogi ymhellach yr angen am ddulliau mwy cydweithredol. Daeth effaith y pandemig i'r amlwg hefyd yn ystod y broses ymgysylltu, gyda darpariaeth iechyd meddwl yn faes sy'n peri fwyfwy o bryder, yn ogystal â mynediad at wasanaethau VAWDASV.

**Codi Ymwybyddiaeth**

Yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, tynnwyd sylw yn benodol at y ffaith nad yw gwybodaeth am wasanaethau bob amser yn gyson a'i bod yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth yn barhaus ynghylch Tai a'r Rhaglen Cymorth Tai, gan sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio.

**Recriwtio, Hyfforddi a Chadw**

Mae recriwtio staff wedi'i nodi drwy gydol y broses ymgynghori fel maes sy'n rhoi pwysau ar ddarparwyr gwasanaethau, sydd, o ganlyniad, wedi cael effaith ar ddarparu gwasanaethau.

Mae'r dystiolaeth a'r wybodaeth a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill wedi llywio blaenoriaethau strategol y strategaeth hon yn uniongyrchol a bydd Torfaen yn gweithio'n agos gyda'i gydweithwyr i sicrhau bod y strategaeth yn cael yr effaith fwyaf bosibl trwy integreiddio a chyfathrebu parhaus, wrth archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithredu pellach, gan alinio blaenoriaethau'r

strategaeth gyda strategaethau partneriaid a gwasanaethau a gomisiynir ar y cyd lle bo hynny'n briodol.

# 5 Asesiadau Effaith

## 5a Y broses asesu effeithiau

Mae asesiad effaith cynhwysfawr wedi'i gynnal gan y gwasanaeth tai i asesu effaith y 9 blaenoriaeth strategol.

Cynhaliwyd yr asesiadau gan aelodau o'r gwasanaeth RhCT, gan ddefnyddio templedi gan Gyngor Torfaen a Llywodraeth Cymru.

Mae Cyngor Torfaen wedi datblygu Asesiad Effaith integredig sy'n ystyried yr effaith y bydd prosiect neu gynnig penodol yn ei chael ar allu'r cyngor i gyflawni ei ofynion deddfwriaethol ehangach, gan gynnwys Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf Cydraddoldeb 2010 ( Cymru).

Cynhaliwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) gan ddefnyddio templed Llywodraeth Cymru, a oedd yn edrych ar effaith y blaenoriaethau ar hawliau plant a sut y gall y strategaeth gefnogi a hyrwyddo'r hawliau hyn.

## 5b Canfyddiadau allweddol

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Roedd y broses asesu effaith yn ystyried 9 blaenoriaeth strategol y strategaeth RhCT yng nghyd-destun pob un o'r nodau gwarchodedig sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

Ym mhob achos, nododd yr asesiad y byddai'r blaenoriaethau yn dod ag effeithiau cadarnhaol i unigolion â'r nodweddion hyn, yn enwedig unigolion sy'n cael eu hystyried yn fregus oherwydd eu hoedran neu gyfeiriadedd rhywiol, lle mae gwasanaethau penodol yn cael eu darparu ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'u hanghenion.

Maes lle gallai gweithredu'r strategaeth hefyd ddod â rhai gwelliannau sylweddol yw mewn perthynas â llety addas sydd ar gael i unigolion ag anabledd. Mae'r asesiad anghenion wedi amlygu bod llety yn gyffredinol yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn Nhorfaen a bod darparu mwy o lety wedi'i nodi fel blaenoriaeth strategol. Trwy waith partneriaeth cadarnhaol, bydd Torfaen yn gweithio i ddatrys mwy o faterion tai, a fydd yn cynnwys opsiynau ar gyfer unigolion ag anabledd, gan greu nifer o effeithiau cadarnhaol.

Fe wnaeth yr asesiad ar effaith ystyried a allai materion hil effeithio'n anuniongyrchol ar drigolion, am fod gan rhai trigolion o wahanol hiliau ofynion diwylliannol neu ieithyddol gwahanol, a allai fod yn rhwystr i gael mynediad at wasanaethau. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth Tai yn parhau i drefnu i fynd i'r afael â'r materion hyn lle bynnag y bo modd, trwy ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu a gwybodaeth sydd ar

gael mewn ieithoedd neu fformatau eraill. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro drwy gydol oes y strategaeth, i sicrhau bod gwasanaethau'n addasu i unrhyw newidiadau yn y ddarpariaeth a allai effeithio ar grŵp penodol.

Asesiad Iaith Gymraeg

Ystyriodd yr asesiad a fyddai blaenoriaethau strategol a chyflawniad y strategaeth RhCT yn effeithio ar allu person i gael hyd i wasanaethau yn Gymraeg a'u defnyddio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Daeth yr asesiad i'r casgliad bod digon o ddarpariaeth ar waith ar hyn o bryd ar draws yr awdurdod lleol a'i bartneriaid i alluogi defnyddwyr gwasanaethau i gael hyd i wasanaethau yn yr iaith o'u dewis, ac na fydd gweithredu'r strategaeth hon yn effeithio'n negyddol ar Fesur y Gymraeg.

Fodd bynnag, cydnabuwyd, oherwydd y nifer cyfyngedig o geisiadau am wasanaethau cyfrwng Cymraeg yn Nhorfaen, ei bod yn hanfodol bod gwasanaethau'n cael eu monitro'n barhaus i sicrhau eu bod yn parhau'n hygyrch drwy gyfrwng y Gymraeg bob amser, fel nad yw neb sy'n cael cymorth Tai neu wasanaethau RhCT dan anfantais oherwydd eu dewis iaith.

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)
Bydd y strategaeth RhCT yn dod â sawl effaith gadarnhaol i blant:

- Llai o amser mewn llety dros dro
- Gwell opsiynau llety i aelwydydd
- Codi ymwybyddiaeth ynghylch y cymorth sydd ar gael i aelwydydd sy'n ei chael hi'n anodd
- Darparu gwell cymorth i aelwydydd

Er nad yw'r RhCT yn darparu cymorth i blant yn uniongyrchol, bydd y blaenoriaethau a nodir yn y strategaeth hon yn arwain at nifer o effeithiau cadarnhaol i aelwydydd, a fydd yn gwella profiadau i blant sydd ynddynt.

## 6. Gweithredu, monitro ac adolygu'r Strategaeth

### 6a Gweithio gyda phartneriaid

Byddwn yn adolygu trefniadau llywodraethu ein grwpiau cynllunio lleol yn rheolaidd a byddwn yn mynd ati i geisio sicrhau bod partneriaid allweddol yn cael eu cynrychioli ym mhob fforwm perthnasol, gan sicrhau eu bod yn cymryd rhan lawn yn y trafodaethau cadarnhaol dan sylw.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar lefel weithredol a strategol gan greu cyfleoedd i gydweithio ar draws ffiniau a sectorau i wneud y gorau o adnoddau a chapasiti.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r Rhaglen Tai a Chymorth Tai yn lleol, drwy ymgysylltu ac ymgynghori'n barhaus â rhanddeiliaid, gan ddefnyddio'r amrywiol sianeli cyfathrebu sydd ar gael, yn llawn.

Trwy ddefnyddio'r mecanweithiau cydweithio rhanbarthol sydd ar waith ar hyn o bryd, byddwn yn parhau i feithrin perthnasoedd cynhyrchiol ar bob lefel gyda phartneriaid allweddol fel iechyd, gofal a chyfiawnder troseddol er mwyn cyflawni a gwneud y mwyaf o effaith y strategaeth.

Mae'r partneriaid allweddol yn cynnwys:

- Iechyd
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Gwasanaeth Prawf
- Yr Heddlu
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Lleol
- Landlordiaid Sector Preifat Lleol
- Darparwyr RhCT
- Rhwydweithiau Trydydd Sector

### 6b Ffynonellau cyllid

Bydd y Strategaeth RhCT yn cael ei chyflwyno gan ddefnyddio'r ffynonellau ariannu a ganlyn:

- Dyraniad Grant RhCT
- Cyllid Craidd Awdurdodau Lleol
- Cyllid Cyfalaf (Grant Tai Cymdeithasol)
- Arian grant arall sydd ar gael (pan fydd ar gael)

Mae copi o wariant Dyraniad Grant RhCT i'w weld yn **Atodiad 2.**

### 6c Trefniadau monitro, adolygu a gwerthuso

Bydd y Strategaeth hon yn cael ei monitro a'i hadolygu gan y Grŵp Cynllunio Cymorth Tai (GCCT), sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r maes tai a gofal cymdeithasol ac sy'n cyfarfod bob chwarter. Bydd y GCCT yn cyfarfod i ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn pob un o'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu a bydd hefyd yn ystyried mesurau perfformiad allweddol, adolygiadau'r gwasanaeth, ac adborth yn dilyn digwyddiadau rhanddeiliaid allweddol fel fforymau darparwyr a rhanddeiliaid.

Bydd blaenoriaethau rhanbarthol wedyn yn cael eu hadolygu yn y Grŵp Cydweithredol ar gyfer Cefnogi Tai Rhanbarthol, sy'n cyfarfod bob chwarter.

**Mesurau Perfformiad**

Bydd y mesurau perfformiad statudol canlynol yn rhan o drefniadau monitro a gwerthuso'r strategaeth:

- Aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag Digartrefedd (%) (Adran 66)
- Aelwydydd a gafodd eu rhyddhau'n llwyddiannus o Ddigartrefedd (%) (Adran 73)
- Cyfanswm y bobl a gynorthwywyd â chanlyniad yn ystod y cyfnod (RhCT)
- Cyfanswm y bobl a gafodd ganlyniad yn ystod y cyfnod (RhCT)
- Cyfanswm nifer y defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi ymddieithrio â chymorth (RhCT)

**Adolygu'r Gwasanaeth**

Mae gwasanaethau a gomisiynir gan y RhCT yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y Tîm Comisiynu, i ganfod a yw prosiect yn bodloni ei amcanion ac yn parhau i fod yn wasanaeth strategol perthnasol. Mae'r adolygiadau'n cynnwys dadansoddi ffeiliau achos ac ystadegau allweddol, yn ogystal â chyfweliadau â defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr cymorth.

Mae'r broses werthuso yn helpu i ddilysu ansawdd a pha mor gost-effeithiol yw gwasanaethau, ystyried lefelau'r galw sy'n dod i'r amlwg, enghreifftiau o arfer gorau a nodi unrhyw newidiadau sydd eu hangen i wella'r gwasanaethau a ddarperir.

**Ymgysylltu**

Mae'r gwasanaeth Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'i randdeiliaid drwy adolygiadau ac ymarfer ymgysylltu blynyddol, sy'n galluogi'r awdurdod lleol i ddeall effaith y gwasanaethau yn well. Bydd y dull hwn yn parhau dros oes y strategaeth, i sicrhau bod y blaenoriaethau strategol yn cael eu cyflawni a bod gwasanaethau'n diwallu anghenion pobl leol.

**Cynllun Gweithredu**

Bydd y cynllun gweithredu yn sail i gyflawni'r strategaeth RhCT a bydd y cynllun gweithredu yn cael ei adolygu'n chwarterol i fonitro cynnydd a gwerthuso lefelau llwyddiant o ran cyflawni'r camau gweithredu.

**Atodiadau:**

Atodiad 1: Asesiad o Anghenion – Ar gael ar gais

Atodiad 2: Gwariant Dyraniad Grant RhCT – Ar gael ar gais

# Atodiad A – Cynllun Gweithredu

| Blaenoriaeth | Cam sydd ei angen i gyflawni'r flaenoriaeth | Amserlenni /Erbyn Pryd | Unigolyn sy'n arwain | Statws |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu a datblygu ein cynnig llety â chymorth i ddiwallu anghenion llety a chymorth unigolion sy'n fregus yn ein cymuned. | Byddwn yn deall anghenion a'r galw gan ein cymunedau i ddatblygu opsiynau llety a chymorth i ddiwallu'r anghenion a'r galw sy'n dod i'r amlwg | Parhaus | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol | Ar droed |
| | Byddwn yn parhau i gynyddu'r cyflenwad o letyau â chymorth sy'n unedau sengl i gefnogi pobl sengl sy'n wynebu digartrefedd, i gael mynediad i'w llety a'i gynnal.. | Mawrth 2027 | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol | Ar droed |
| | Byddwn yn parhau i ddatblygu opsiynau i gynyddu nifer y gwelyau brys i gynorthwyo'r gwaith o gyflenwi llety brys i'r rhai sy'n ddigartref, a rheoli'r llety hyn. | Mawrth 2027 | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol / Tai | Ar droed |
| | Byddwn yn sicrhau bod pob unigolyn sy'n cael lle mewn llety dros dro yn gallu cael cymorth. | Mawrth 2023 | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol | Wedi'i gyflawni |
| | Byddwn yn datblygu ac yn treialu dulliau newydd i fynd i'r afael â heriau ac anghenion cymhleth sy'n dod i'r amlwg drwy fenter grant i ganiatáu datblygu ffyrdd newydd o weithio. | Blynyddol | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol | Ar droed |
| Atgyfnerthu mynediad at y cymorth iechyd meddwl sy'n cael ei ddarparu i fodloni'r cynnydd yn y galw | Byddwn yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i adolygu'r gwasanaethau iechyd meddwl sy'n cael eu darparu, i ddeall y bylchau yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd, a datblygu datrysiadau cymorth tai. | Parhaus | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol / Tai | Ar droed |
| | Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau cymorth iechyd meddwl yn hygyrch trwy ddarparu ystod o opsiynau gwasanaeth. | Parhaus | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol | Ar droed |
| | Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr cymorth yn gallu cael mynediad at hyfforddiant iechyd meddwl sylfaenol i gynorthwyo unigolion ag angen iechyd meddwl yn effeithiol. | Parhaus | Darparwyr Cymorth / Arweinydd RhCT | Wedi'i gyflawni |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwella gwasanaethau allgymorth ac ymyrraeth gynnar i leihau effaith negyddol digartrefedd. | Byddwn yn hyrwyddo gwasanaethau cymorth tai a mentrau ymyrraeth gynnar sydd ar gael i alluogi trigolion i gael mynediad at gyngor a chymorth tai mewn modd amserol. | Parhaus | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol /Hwb Atal ac Ymyrraeth Gynnar | Ar droed |
| | Byddwn yn galluogi mynediad at gyngor a chymorth ariannol amserol i alluogi unigolion i gynnal llety | Parhaus | Comisiynu Ataliol /Hwb Atal ac Ymyrraeth Gynnar | Wedi'i gyflawni |
| | Byddwn yn cynnal mecanwaith brysbennu er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael mynediad at y cymorth mwyaf addas i'w hanghenion mewn modd amserol. | 2022/2023 | Hwb Atal ac Ymyrraeth Gynnar | Wedi'i gyflawni |
| | Byddwn yn sicrhau bod darpariaeth allgymorth grymusol ar gael i gynorthwyo unigolion sydd mewn perygl o gysgu ar y stryd. | Ebrill 2025 | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol | Wedi'i gyflawni |
| | Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol (LCC a phartneriaid ehangach) i ddatblygu'r agenda dim troi allan. | 2023 | Rheolwyr Tai | Ar droed |
| | Byddwn yn adolygu capasiti'r prosiect Tai yn Gyntaf ac yn ystyried ehangu'r cynllun i gefnogi'r gwaith o reoli'r galw am y gwasanaeth. | Mawrth 2027 | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol | Ar droed |
| Atgyfnerthu mynediad at ddarpariaeth cymorth VAWDASV i fodloni'r cynnydd yn y galw | Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r fforymau VAWDASV ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i ddatblygu ac alinio blaenoriaethau strategol a chynlluniau comisiynu. | Parhaus | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol | Ar droed |
| | Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau hygyrch ar gael trwy ddarparu ystod o opsiynau gwasanaeth i gynorthwyo dioddefwyr VAWDASV i deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain, nodi patrymau ymddygiad ymosodol a chyflawni'r gallu i fyw'n annibynnol cyn belled ag y bo modd yn eu cymuned. | Parhaus | RhCT / Darparwyr | Wedi'i gyflawni |
| | Byddwn yn sicrhau bod menywod bregus (yn cynnwys y rheini â phlant dibynnol) sydd ag anghenion cymhleth ac yn dianc o'u cartref oherwydd materion VAWDASV yn medru cael hyd i ystod o opsiynau lloches i ddiwallu eu hanghenion a'u hamgylchiadau. | Parhaus | Arweinydd RhCT / Darparwr Gwasanaeth | Wedi'i gyflawni |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Byddwn yn cefnogi mynediad at Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA), Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) a'r Rhaglen Rhyddid neu wasanaethau cyfatebol. | Parhaus | RhCT / Darparwyr rhwydweithiau VAWDASV Gwent | Wedi'i gyflawni |
| | Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau i ddioddefwyr Cam-drin Domestig ar gael i bob unigolyn sydd angen cymorth sy'n ymwneud â thai . | Parhaus | | Wedi'i gyflawni |
| | Byddwn yn mynd ati i nodi'r rhwystrau i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth yn y gymuned er mwyn sicrhau bod mynediad cyfartal a thriniaeth gyfartal. | Parhaus | Hwb Comisiynu / Atal ac Ymyrraeth Gynnar | Ar droed |
| Trwy ddeddfwriaeth a pholisïau, ymgorffori dulliau Ailgartrefu Cyflym i sicrhau pan fydd yna achos o ddigartrefedd, ei fod yn gyfnod byr ac na fydd yn digwydd eto. | Byddwn yn bwrw ymlaen â datblygu dulliau Ailgartrefu Cyflym i sicrhau bod digartrefedd yn brin, yn fyr ac nad yw'n cael ei ailadrodd. | Yn gysylltiedig â threfniadau trosiannol o fewn y cynllun AC | Rheolwyr Tai Awdurdodau Lleol | Ar droed |
| | Byddwn yn adolygu polisïau, gweithdrefnau a llwybrau i alluogi mabwysiadu dull ailgartrefu cyflym. | Yn gysylltiedig â threfniadau trosiannol o fewn y cynllun AC | Rheolwyr Tai Awdurdodau Lleol | Ar droed |
| | Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu a chyfleu'r dull a'r cynllun ailgartrefu cyflym. | Yn gysylltiedig â threfniadau trosiannol o fewn y cynllun AC | Rheolwyr Tai Awdurdodau Lleol | Ar droed |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i sicrhau bod y newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â Thai a Digartrefedd yn cael eu cyfleu a'u hymgorffori wrth ddarparu gwasanaethau. | 2026/2027 | Rheolwyr Tai ac Atal Awdurdodau Lleol | Ar droed |
| Parhau i fonitro ac asesu lefelau'r galw am gymorth sy'n ymwneud â thai, gan adolygu ac addasu gwasanaethau i fodloni tueddiadau a gofynion ar hyn o bryd o ran pobl sy'n ddigartref neu a allai ddod yn ddigartref. | Byddwn yn gweithio gyda'n darparwyr a'n rhanddeiliaid i adolygu a monitro'r gwasanaethau a ddarperir i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn ymatebol ac yn berthnasol.. | Parhaus | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol | Ar droed |
| | Byddwn yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i ddatblygu a gwella ein cynnig cymorth. | Parhaus | Arweinwyr / Darparwyr RhCT | Ar droed |
| | Byddwn yn parhau i weithio gyda'r gymuned o ddarparwyr i ymateb i dueddiadau a materion sy'n dod i'r amlwg, ac addasu iddynt. | Parhaus | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol | Ar droed |
| | Byddwn yn adolygu capasiti’r ddarpariaeth yn rheolaidd, ac yn ymateb i unrhyw anghenion a’r galw sy’n dod i’r amlwg | Parhaus | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol | Ar droed |
| Atgyfnerthu ac adeiladu dulliau cydweithredol a phartneriaethau adeiladol i wella canlyniadau i aelwydydd digartref | Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chydweithwyr rhanbarthol Gwent i ddatblygu gwasanaethau a gomisiynir ar y cyd a rhannu gwybodaeth ac adnoddau (lle bo’n briodol) i ddiwallu’r anghenion a’r galwadau sy’n dod i’r amlwg yn rhanbarth Gwent, yn y ffordd orau | Parhaus | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol | Ar droed |
| | Byddwn yn parhau i ymgysylltu â fforymau amlasiantaeth i ddatblygu atebion i'r heriau yr ydym yn eu hwynebu | Parhaus | Rheolwyr Tai ac Atal | Ar droed |
| | Gwella aliniad a’r ymgysylltu â’r Hwb Atal er mwyn sicrhau bod mynediad at wasanaethau cael ei gydlynu a’i symleiddio | Mawrth2027 | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol / Hwb Atal ac Ymyrraeth Gynnar | Ar droed |
| | Ymgysylltu â’r Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol (BCRh) i ddatblygu darpariaethau a llwybrau camddefnyddio sylweddau di-dor | Parhaus | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol | Wedi’i gyflawni |
| | Byddwn yn gweithio gyda’r Gwasanaethau Plant i roi llwybr ar waith ar gyfer pobl ifanc a allai hefyd fod yn gadael gofal. | Parhaus | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol | Wedi’i gyflawni |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Byddwn yn parhau i ddatblygu trefniadau partneriaeth adeiladol ar draws y cymunedau a threfniadau atal ac ymyrraeth gynnar | Mawrth 2027 | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol/ Hwb Atal ac Ymyrraeth Gynnar | |
| Gwella mynediad at wasanaethau Cymorth Tai drwy fabwysiadu'r llwybr Atal ac Ymyrraeth Gynnar, gan sicrhau bod mynediad at wasanaethau cymorth tai yn cael ei gydlynu. | Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod egwyddorion yr ymagwedd gymunedol ac atal ac ymyrraeth gynnar yn cael eu hymgorffori yn y Rhaglen Grant Cymorth Tai. | Mawrth 2027 | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol /Hwb Atal ac Ymyrraeth Gynnar | Ar droed |
| | Byddwn yn parhau i ddarparu swyddogaeth brysbennu ac asesu i sicrhau bod modd darparu'r gefnogaeth gywir, yn y lle iawn ar yr adeg iawn. | Parhaus | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol / Hwb Atal ac Ymyrraeth Gynnar | Ar droed |
| | Adolygu ein gwasanaeth 'galw heibio' i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cydgysylltu'n strategol a'u bod yn ymatebol i anghenion trigolion.<br>Hwb Atal. | Mawrth 2027 | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol /Hwb Atal ac Ymyrraeth Gynnar | Wedi'i gyflawni |
| | Byddwn yn ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad byw, a rhanddeiliaid ehangach i ddeall y rhwystrau i gael mynediad i gymorth ac ymgysylltu a manteisio ar y cymorth hwn | Parhaus | Tîm Trefniadau Comisiynu Ataliol / Hwb Atal ac Ymyrraeth Gynnar | Ar droed |
| Buddsoddi yn natblygiad y gweithlu i sicrhau gweithlu tra medrus, ymatebol a chynaliadwy. | Parhau i gynorthwyo'r gymuned o ddarparwyr i ddatblygu gwahanol ddulliau i hyrwyddo recriwtio i'r sector cymorth. | Parhaus | Arweinydd HSG/ Rheolwyr / Darparwyr Tai | Ar droed |
| | Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr cymorth yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant sylfaenol priodol ac angenrheidiol i gefnogi unigolion ag ystod o anghenion cymhleth yn effeithiol. | Parhaus | Arweinydd / Darparwyr RhCT | Ar droed |
| | Sicrhau bod arferion comisiynu a chaffael yn cyfrannu at ddatblygu gweithlu cynaliadwy | Parhaus | Rheolwyr Tai a Chomisiynu | Ar droed |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Awdurdodau Lleol | |